# WYTHNOS 6: COLOMEN HEDDWCH

## #addewidagobaith #hopeandpromise



**Gweddi Peace Mala sy'n hyrwyddo heddwch trwy'r byd i gyd.**

**Duw y bydysawd**

**Duw pob byd**

**Ti'n dod a goleuni i'r rhai sydd wedi bod mewn tywyllwch.**

**Bendithia pawb sy'n darllen y weddi yma heddiw**

**Fel i ni allu dilyn llwybr y goleuni.**

**Gad i ni ddysgu pwêr tosturi sy'n iachau pob briw**

**Pwêr cyfeillgarwch sy'n iachau pob calon.**

**Mae heddwch yn cychwyn gyda pob un ohonom.**

**Amen**



.Dyma golomen heddwch, colomen wen Peace Mala wedi ei greu gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Hafod, Abertawe.

Yn y llun mae'r golomen yn cario a trosglwyddo'r neges o heddwch.

Mae'r ffilm "Peace Mala-The Dove's Journey" wedi ei greu gan Ysgol Gynradd Hafod.
Mae'n dangos siwrne'r golomen wen wrth iddi deithio o amgylch y byd i leoliadau sanctaidd pererindod sy'n bwysig i 14 o wahanol grefyddau.

**https://youtu.be/fWERxu4x9nQ**

Mae breichled enfysPeace Mala yn cael ei wisgo i'n hatgoffa o'r Rheol Aur:
"Gwna i eraill fel yr hoffech iddynt eich trin chi"





Efallai y gallwch greu breichled Peace Mala neu freichled cyfeillgarwch i wisgo neu i'w yrru at eich ffrindiau.
Chwiliwch o gwmpas i weld beth sydd gennych wrth law i helpu i chi greu.

Rhannwch eich lluniau gan ddefnyddio'r hashnod **#addewidagobaith #hopeand promise**



**Gallwch ddarganfod mwy am Peace Mala a'r 14 colomen wrth glicio ar y linc yma ar wefan Peace Mala:**

**http://www.peacemala.org.uk/our-symbolic-doves-of- peace.php**

**Sut gall hwn gysylltu â cwricwlwm yr ysgol?**

**Drwy ddatblygu'r sgiliau i fod yn unigolyn moesegol, gwybodus, yn ddinesydd Cymru a'r byd sy'n dangos empathi dros anghenion eraill. Sgiliau holl bwysig i'ch meddwlgarwch emosiynol.**



Follow us on twitter @churchinwales

**@diostasaphedu** **@pobldewi** **@esgobaethbangor** **@llandaffed** **@swanbreced** **@apmdaly**